


Dre-fach Felindre



Amgueddfa Wlân Cymru



Pam Dewis Cerdded?

Mae'r ardal wledig o amgylch Dre-fach Felindre'n gyfuniad deniadol iawn o goetir hynafol, perthi sy'n gyforiog o flodau a chaeau agored sy'n rhoi golygfeydd gwych dros y dirwedd leol ac allan tuag at brydferthwch Dyffryn Teifi.

Mae rhwydwaith helaeth o lwybrau, traciau a ffyrdd porthmyn hynafol yn rhan o goetir y dyffryn, ar hyd nentydd a thros dir amaethyddol, gan gysylltu'r melinau a'r ffermydd â'r pentrefi. Maent yn arwain y cerddwr drwy gefn gwlad sy'n llawn mannau o ddiddordeb archeolegol, cymdeithasol a bywyd gwyllt.

Mae angen i grwpiau o deuluoedd ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn hanes fynd i Amgueddfa Wlân Cymru.



Pa mor bell?

Mae'r daith yn 5km o hyd (3.2 milltir) gyda 126 metr yn codi (413 troedfedd).



Pa mor anodd?

Mae'r daith yn bennaf ar hyd llwybrau sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n gymharol wastad, ond mae mannau mwy serth a all fod yn anodd i rai cerddwyr. Argymhellir eich bod yn defnyddio esgidiau cerdded neu esgidiau cadarn. Caniatewch 2-3 awr



Y Man Cychwyn:

Amgueddfa Wlân Cymru.



Y Maes Parcio:

Maes parcio'r amgueddfa neu yng nghanol y pentref.



Trafnidiaeth Gyhoeddus: ✓




Lluniaeth: ✓

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire

Mannau o ddiddordeb



© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100023377

- 1 Saif Amgueddfa Wlân Cymru yn lleoliad hen Felinau'r Cambrian. Mae'n adrodd hanes a phwysigrwydd y diwydiant gwehyddu i'r ardal a'r bobl oedd yn byw ac yn gweithio yma.
- 2 Ym misoedd y gwanwyn a'r haf y mae'r lôn hon yn wledd i'r llygaid gyda thrwch o flodau lliwgar yn y perthi.
- 3 Yr anheddiad cynharaf yn yr ardal yw Dinas Brân sef bryngaer oes haearn, sy'n goruchwyllo'r uchelderau dros ddyffryn serth Afon Brân. Yn anffodus, dros y canrifoedd mae gweddillion y gaer wedi erydu i ffwrdd.
- 4 O fis Mai i fis Medi gellir gweld blodau melyn golau y biwlith melyn ynghyd â charped o glychau'r gog. Mae'r blodau hyn ynghyd â phlanhigion brodorol eraill yn helpu i ddangos bod y coetir hwn yn hynafol, ac yn dyddio'n ôl i 1600 o leiaf. Nid yw llethrau serth y dyffrynnoedd yn addas iawn ar gyfer amaethyddiaeth ac felly mae'r goedwig wedi parhau'n nodwedd gyson yn y dirwedd am gannoedd o flynyddoedd. Mae gan nifer o'r coed lawer o wreiddiau sy'n dangos eu bod ar un adeg wedi cael eu bôn-docio.
- 5 Yn anterth y diwydiant gwlân, roedd 'Cwm Cottage', ynghyd ag eraill yn yr ardal, yn weithdy gwehyddion â gwŷdd llaw.
- 6 Gan mlynedd yn ôl, roedd Cwmhiraeth yn bentref diwydiannol prysur â melinau a siopau gwehyddu.